RAISING THE AGE OF SALE OF TOBACCO

CHECKLIST FOR EMPLOYERS

From Monday, 1st October 2007 the law for selling tobacco will change. From this date, it will be illegal to sell tobacco products to anyone under the age of 18 (an increase from 16).

There are a number of things you can do to ensure you and your staff are ready for the change in law:

- ☐ Clearly display the correct signage on or near your shop counter where it is visible to customers. This should deter under-aged customers from attempting to buy in the first place and will help you remind them that you and your staff are simply following the law.
- ☐ Tell your staff about the change in the law and train them to always ask for proof of age if they are in any doubt about a customer's age. Make sure your staff understand that they could be personally liable if they sell tobacco products to anyone under the age of 18.
- ☐ Keep a record of any staff training you carry out regarding the change in law and ask your members of staff to sign to say that they have understood it. This should then be kept on file for reference.
- ☐ Set up a refusals register to record when you or any member of staff have refused to sell to a young person. This should detail the date and time of any incident, the product being purchased, reason for refusal, and a brief description of the customer. Make sure this refusals register is always available for your staff to refer to.
- ☐ You should also be prepared to support and be sensitive to staff if they do encounter abusive or threatening behaviour.
- ☐ You may wish to consider ways in which you can share intelligence about troublesome individuals with other businesses in the area.
- ☐ If you employ under-18s in your business, it is not illegal for them to sell tobacco products, provided of course that the customer is not under-age. However, they are likely to find it difficult to refuse to sell to their own age group. Leaving them unsupervised is therefore seen as poor employment practice and is not recommended.
- ☐ If you have an EPOS system, it may be possible to use it to remind staff of the change in law and how to comply with it via a prompt.

CODI'R OEDRAN AR GYFER GWERTHU TYBACO

RHESTR ATGOFFA I GYFLOGWYR

O ddydd Llun, 1af Hydref 2007 bydd y gyfraith o ran gwerthu tybaco yn newid. O'r dyddiad hwn, bydd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed (cynnydd o 16 oed) yn anghyfreithlon.

Mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud i sicrhau eich bod chi a'ch staff yn barod ar gyfer y newid yn y gyfraith:

- ☐ Dangoswch yr arwyddion cywir ar gownter eich siop neu wrth ymyl y cownter lle y gall cwsmeriaid eu gweld. Dylai hyn atal cwsmeriaid o dan oedran rhag ceisio prynu yn y lle cyntaf a bydd yn eich helpu i'w hatgoffa mai dilyn y gyfraith rydych chi a'ch staff yn ei gwneud.
- ☐ Dywedwch wrth eich staff am y newid yn y gyfraith a dysgwch hwy i ofyn bob tro am brawf o oedran os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch oedran cwsmer. Gwnewch yn siŵr bod eich staff yn deall y gallent fod yn bersonol atebol os byddant yn gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed.
- ☐ Cadwch gofnod o unrhyw hyfforddiant staff rydych yn ei gynnal o ran y newid yn y gyfraith a gofynnwch i'ch aelodau o staff lofnodi i ddweud eu bod wedi deall yr hyfforddiant. Yna dylid cadw hyn ar ffeil er mwyn cyfeirio ato.
- ☐ Sefydlwch gofrestr gwrthod i gofnodi pan fyddwch chi neu unrhyw aelod o staff wedi gwrthod gwerthu i unigolyn ifanc. Dylai nodi dyddiad ac amser y digwyddiad, y cynnyrch y ceisiwyd ei brynu, rheswm dros wrthod, a disgrifiad cryno o'r cwsmer. Gwnewch yn siŵr fod y gofrestr gwrthod bob amser ar gael i'ch staff gyfeirio ati.
- ☐ Efallai y bydd rhai pobl ifanc 16 a 17 oed yn anfodlon y gwrthodir iddynt brynu cynhyrchion tybaco ar ôl 1af Hydref. Dylai staff fod yn ymwybodol os bydd unrhyw achos o gam-drin difrifol yn digwydd, y dylid rhoi gwybod am hynny i'r heddlu, yn yr un modd â'ch gweithdrefn bresennol pan fydd cwsmeriaid yn bod yn fygythiol.
- ☐ Dylech fod yn barod i roi cymorth i staff a bod yn sensitif â hwy os byddant yn profi ymddygiad ymosodol neu fygythiol.
- ☐ Os ydych yn cyflogi pobl o dan 18 oed yn eich busnes, nid yw'n anghyfreithlon iddynt werthu cynhyrchion tybaco, ar yr amod wrth gwrs nad yw'r cwsmer o dan oedran. Fodd bynnag, maent yn debygol o'i chael yn anodd i wrthod gwerthu i'w grŵp oedran eu hunain. Felly ystyrir bod eu gadael heb oruchwyliaeth yn arfer cyflogaeth gwael ac nid argymhellir hynny.
- ☐ Os oes gennych system EPOS, gallai fod yn bosibl i'w defnyddio i atgoffa staff am y newid yn y gyfraith a sut i gydymffurfio â hi drwy hysbysiad atgoffa.
- ☐ Efallai y byddwch am ystyried ffyrdd y gallwch rannu gwybodaeth am unigolion trafferthus gyda busnesau eraill yn yr ardal.

CANLLAW I STAFF

O ddydd Llun, 1af Hydref 2007 bydd y gyfraith o ran gwerthu tybaco yn newid. O'r dyddiad hwn, bydd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed (cynnydd o 16 oed) yn anghyfreithlon.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch oedran rhywun, dylech bob amser ofyn am brawf oedran â llun. Ymhlith dogfennau profi oedran dilys mae pasbortau, trwyddedau gyrru â llun neu gardiau profi oedran achrededig fel Citizencard, Cerdyn 'Prove It' Portman neu Gerdyn Validate. Dylid chwilio am logo hologram 'PASS' ar bob cerdyn profi oedran.

Os oes gennych amheuaeth o hyd ni ddylid gwerthu'r cynnyrch. Cofiwch, gallwch fod yn bersonol atebol os byddwch yn gwerthu i rywun o dan 18 oed.

Pan fyddwch yn gwrthod gwerth cynnyrch i gwsmer oherwydd ei fod o dan oedran neu nad oes ganddo brawf oedran dilys, gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi'r manylion ar y gofrestr gwrthod y bydd eich cyflogwr wedi'i sefydlu.

Bydd rhai pobl ifanc 16 a 17 oed yn anfodlon bod y gyfraith yn newid ar 1af Hydref. Er mwyn osgoi gwrthdaro posibl gyda chwsmeriaid wrth wrthod gwerthu

- ☐ Byddwch yn ddoeth ac yn gwrtais. Gall cael eich gwrthod godi cywilydd. Ymddiheurwch a pheidiwch â'u cythruddo hwy na gwylltio eich hun.
- ☐ Peidiwch â chyffroi a pheidiwch â chodi eich llais hyd yn oed os byddant hwy yn gwneud hynny. Os byddant yn gwylltio, arhoswch yn broffesiynol a daliwch eich tir.
- ☐ Esboniwch ei bod yn erbyn y gyfraith i chi werthu cynhyrchion tybaco iddynt - ac nid yw'n unrhyw beth personol.
- ☐ Sicrhewch fod y cownter rhyngoch chi a'r cwsmer ar bob adeg.
- ☐ Os bydd sefyllfa yn codi pan fydd cwsmer yn mynd yn dreisgar a bod angen cymorth brys arnoch, ffoniwch yr heddlu.
- ☐ Gwnewch yn siŵr fod gennych rywle i ddianc mewn digwyddiad difrifol.
- ☐ Rhowch wybod am unrhyw ddigwyddiad i'r heddlu.
- ☐ Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw beth y sonnir amdano uchod, siaradwch â'ch cyflogwr/rheolwr.

ACS | the voice of local shops

Usdaw Union of Shop, Distributive and Allied Workers

DOH 283275 8/07 6000CY

GUIDANCE FOR STAFF

From Monday, 1st October 2007 the law for selling tobacco will change. From this date, it will be illegal to sell tobacco products to anyone under the age of 18 (an increase from 16).

If you are in any doubt about a person's age, always ask for photo ID. Valid proof of age documents include passports, photo driving licences, or accredited proof of age cards such as a Citizencard, Portman 'Prove It' Card or Validate Card. On all proof of age cards, look for the 'PASS' hologram logo.

If you are still in doubt, the sale should not be allowed to take place. Remember, you could be personally liable if you do sell to someone under the age of 18.

With any sale you refuse because a customer is under-age, or does not have valid proof of age, make sure you record the details on the refusals register that your employer will have set up.

There are some 16 and 17 year olds who will be unhappy about the change coming in on 1st October. To avoid potential conflict with customers when refusing a sale:

- ☐ Be tactful and polite. Refusal can be embarrassing. Apologise and don't antagonise them or get annoyed yourself.
- ☐ Remain calm and don't raise your voice, even if they do. If they get angry, stay professional and stand your ground.
- ☐ Explain that it is against the law for you to sell tobacco products to them - it's nothing personal.
- ☐ Always keep the counter between you and the customer.
- ☐ In a situation where a customer becomes violent and you are in need of emergency assistance, call the police.
- ☐ Ensure that you have somewhere to escape to in the case of a serious incident.
- ☐ Report any incident to the police.
- ☐ If you are unsure about any of the above, speak to your employer/manager.

ACS | the voice of local shops

Usdaw Union of Shop, Distributive and Allied Workers

DOH 283275 8/07 6000CY